| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **Dyddiad :** | **1 Gorffennaf 2013** |
| **Teitl :** | **Honiadau yn erbyn aelodau** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Er gwybodaeth** |

## 1. Cefndir

Pwrpas yr adroddiad hwn yw hysbysu aelodau'r Pwyllgor o'r datblygiadau, ers fy adroddiad diwethaf, o safbwynt honiadau yn erbyn aelodau. Seilir yr adroddiad ar y wybodaeth a dderbyniwyd wrth yr Ombwdsmon.

## 2. Cwynion

### 2.1 Cyfeirnod Ombwdsmon 201203449 & 201203493

| **Cwyn** |
|---|
| Bod cynghorydd sir wedi defnyddio ei dudalen Facebook i geisio sylwadau negyddol gan y cyhoedd ynglŷn ag ysgol benodol a bod rhai o'r sylwadau hynny yn sarhaus a di-sail. |
| **Penderfyniad** |
| Peidio parhau â'r ymchwiliad. |
| **Rhesymau** |
| Roedd y Swyddog Monitro wedi ymyrryd yn y mater yn brydlon ac roedd y cynghorydd wedi dilyn cyngor hwnnw. Roedd wedi dileu'r sylwadau mwyaf sarhaus ac wedi rhybuddio cyfranwyr eraill i beidio enwi pobl na defnyddio iaith anweddus. Nid y cynghorydd ei hun oedd wedi gosod y deunydd sarhaus ar y dudalen nag enwi'r unigolyn neu'r ysgol. Serch hynny derbyniai'r Ombwdsmon mai cyfrifoldeb yr aelod oedd cynnwys y dudalen. Nid oedd yr aelod wedi torri'r cod drwy ddweud yn gyhoeddus bod cwyn yn ei erbyn. Nid oedd angen ystyried y mater ymhellach. Roedd y Swyddog Monitro wedi delio a'r gŵyn yn ddigonol. Serch hynny tynnodd sylw'r cynghorydd at ei bryder ynglŷn â'r ffordd roedd wedi dewis cyfarch y mater - roedd ffyrdd mwy addas i wneud hynny. |

**2.2 Cyfeirnod Ombwdsmon 2665/201204709**

| |
|---|
| **Cwyn** |
| Nad oedd cynghorydd tref wedi datgan buddiant mewn llythyr oedd ar raglen cyfarfod o’r cyngor tref gan y gallai fod yn ymwneud a’i safle ar gorff twristiaeth a masnach leol. |
| **Penderfyniad** |
| Dim ymchwiliad. |
| **Rhesymau** |
| Gan mai’r hyn a drafodwyd oedd a ddylid darllen cynnwys y llythyr yn gyhoeddus ai peidio (yn hytrach na’r cynnwys ei hun) nid oedd ganddo fwy o fuddiant yn y mater nag unrhyw gynghorydd arall. |

**2.3 Cyfeirnod Ombwdsmon 201204544**

| |
|---|
| **Cwyn** |
| Bod cynghorydd sir wedi cyhoeddi, ar ei dudalen Facebook, bod eiddo masnachol wedi cael sgôr o ddim o dan y cynllun hylendid bwyd. Erbyn hynny rodd y problemau wedi eu datrys ac fe wnaeth hyn niwed i fusnes yr achwynydd. |
| **Penderfyniad** |
| Dim ymchwiliad. |
| **Rhesymau** |
| Roedd y sgôr eisoes yn wybodaeth gyhoeddus. Rhoddodd yr wybodaeth ar y dudalen gan ei fod yn poeni fod yr eiddo yn darparu bwyd i blant. Nid oedd yr aelod wedi dweud anwiredd ac roedd wedi cynnig ei gymorth i geisio datrys y sefyllfa. Pan roddwyd yr wybodaeth ar y dudalen, roedd y sgôr gwreiddiol yn parhau i sefyll, er bod camau wedi eu cymryd i wella’r sefyllfa. Roedd gan yr achwynydd hawl i ymateb drwy Facebook ac roedd yn fater i’r cyhoedd ystyried yr holl wybodaeth oedd ar gael iddynt cyn gwneud penderfyniad ynglŷn â mynychu’r eiddo. |

**2.4 Cyfeirnod Ombwdsmon 201300346**

| |
|---|
| **Cwyn** |
| Bod cynghorydd sir wedi ffilmio a recordio sgwrs yn gyfrinachol a'i roi ar ei dudalen Facebook. |
| **Penderfyniad** |
| Ymchwiliad yn parhau |

**2.5 Cyfeirnod Ombwdsmon 3982/201301430**

| |
|---|
| **Cwyn** |
| Bod cynghorydd sir yn caniatáu sylwadau sarhaus ac enllibus ar ei dudalen Facebook. |
| **Penderfyniad** |
| Ystyried os yw am ymchwilio. |

**2.6 Cyfeirnod Ombwdsmon 201301307**

| |
|---|
| **Cwyn** |
| Bod cynghorydd sir wedi ymddwyn mewn ffordd fygythiol tuag at yr achwynydd |
| **Penderfyniad** |
| Ystyried os yw am ymchwilio. |

## 3. Achos fu gerbron y Pwyllgor Safonau

Cynhaliodd y Pwyllgor wrandawiad mewn cysylltiad â'r gŵyn yn erbyn y Cyng. A.M. Jones, Cyngor Gwynedd ar 26 Medi 2012. Mae'r Cynghorydd wedi apelio i Banel Dyfarnu Cymru a disgwylir dyddiad ar gyfer y gwrandawiad.

## 4. Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth.